

PRENTISIAETHAU – CYFLOGWR

CANLLAWIAU YMGEISWYR



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cydnabod ymroddiad y cyflogwr i ddatblygu a chefnogi'r gweithlu trwy'r Rhaglen Brentisiaethau.

Dylai'r ceisiadau ddangos sut y mae dull eich sefydliad chi o gyflenwi prentisiaethau:

- Yn canolbwyntio ar y dysgwr.
- Wedi cael effaith sylweddol ar berfformiad y dysgwyr.
- Yn golygu bod eich Rhaglen Brentisiaethau wedi datblygu yn unol â nodau ac amcanion eich sefydliad.
- Yn golygu'ch bod yn cynnig cefnogaeth ac adnoddau ychwanegol (mwy nag a ddisgwylir gan sefydliad o'r maint hwn) i sicrhau bod dysgwyr yn cyrraedd nodau eu Rhaglen Brentisiaethau.
- Yn golygu'ch bod wedi datblygu Rhaglen Brentisiaethau sy'n ceisio mynd i'r afael ag anghenion ychwanegol y gymuned ehangach.

Cyflogwr Bach y Flwyddyn (1 i 49 o weithwyr)

Er mwyn ymgeisio am y wobwr hon mae'n rhaid:

- Bod eich canolfan yng Nghymru neu fod gennych bresenoldeb sylweddol yno.
- Eich bod wedi ymrwymo i gyflogi a hyfforddi pobl trwy'r Rhaglen Brentisiaethau.
- Bod o leiaf un unigolyn wedi cwblhau Fframwaith Prentisiaeth wrth ddilyn rhaglen eich sefydliad chi.
- Eich bod yn dangos cyfraniad neu ymrwymiad mawr i'r Rhaglen Brentisiaethau.
- Eich bod yn dangos agwedd ddyfeisgar neu ddeinamig at gyflenwi prentisiaethau.
- Bod prentisiaethau yn rhan hanfodol o gynllun hyfforddi ac ethos y sefydliad.

Cyflogwr Canolig y Flwyddyn (50 i 249 o weithwyr)

Er mwyn ymgeisio am y wobwr hon mae'n rhaid:

- Bod eich canolfan yng Nghymru neu fod gennych bresenoldeb sylweddol yno.
- Eich bod wedi ymrwymo i gyflogi a hyfforddi pobl trwy'r Rhaglen Brentisiaethau.
- Bod o leiaf un unigolyn wedi cwblhau Fframwaith Prentisiaeth wrth ddilyn rhaglen eich sefydliad chi.



- Eich bod yn dangos cyfraniad neu ymrwymiad mawr i'r Rhaglen Brentisiaethau.
- Eich bod yn dangos agwedd ddyfeisgar neu ddeinamig at gyflenwi prentisiaethau.
- Bod prentisiaethau yn rhan hanfodol o gynllun hyfforddi ac ethos y sefydliad.

Cyflogwr Mawr y Flwyddyn (250 i 4999 o weithwyr)

Er mwyn ymgeisio am y wobwr hon mae'n rhaid:

- Bod eich canolfan yng Nghymru neu fod gennych bresenoldeb sylweddol yno.
- Eich bod wedi ymrwymo i gyflogi a hyfforddi pobl trwy'r Rhaglen Brentisiaethau.
- Bod o leiaf un unigolyn wedi cwblhau Fframwaith Prentisiaeth wrth ddilyn Rhaglen Brentisiaethau eich sefydliad chi.
- Eich bod yn dangos cyfraniad neu ymrwymiad mawr i'r Rhaglen Brentisiaethau.
- Eich bod yn dangos agwedd ddyfeisgar neu ddeinamig at gyflenwi prentisiaethau.
- Bod prentisiaethau yn rhan hanfodol o gynllun hyfforddi ac ethos y sefydliad.

Macro-gyflogwr y Flwyddyn (5000+ o weithwyr)

Er mwyn ymgeisio am y wobwr hon mae'n rhaid:

- Bod eich canolfan yng Nghymru neu fod gennych bresenoldeb sylweddol yno.
- Eich bod wedi ymrwymo i gyflogi a hyfforddi pobl trwy'r Rhaglen Brentisiaethau.
- Bod o leiaf un unigolyn wedi cwblhau Fframwaith Prentisiaeth wrth ddilyn rhaglen eich sefydliad chi.
- Eich bod yn dangos cyfraniad neu ymrwymiad mawr i'r Rhaglen Brentisiaethau.
- Eich bod yn dangos agwedd ddyfeisgar neu ddeinamig at gyflenwi prentisiaethau.
- Bod prentisiaethau yn rhan hanfodol o gynllun hyfforddi ac ethos y sefydliad.

Adran 1: Manylion y cyflogwr – i'w llenwi gan y cyflogwr.

Rhowch ddisgrifiad byr o'ch sefydliad (hyd at 250 o eiriau). Gallech ystyried cynnwys:

- Gwybodaeth am nodau ac amcanion eich sefydliad.
- Gwybodaeth am strwythur eich sefydliad yn cynnwys cyfanswm nifer y gweithwyr.
- Gwybodaeth am y ffordd y mae'ch sefydliad yn mynd ati i ddysgu a datblygu, yn cynnwys statws Buddsoddwyr mewn Pobl.

Adran 2: Prentisiaethau – i'w llenwi gan y cyflogwr.

Faint o brentisiaid rydych chi'n eu cyflogi yn eich sefydliad ar hyn o bryd?

Ers faint o amser y bu'ch rhaglen Brentisiaethau ar waith?

Faint o brentisiaid rydych chi wedi'u recriwtio dros y pum mlynedd ddiwethaf?

Pa Fframweithiau Prentisiaethau sy'n cael eu cyflenwi yn eich sefydliad chi ar hyn o bryd?

C1. Rhowch fanylion tair ffordd/tri maes lle mae prentisiaethau wedi cyfrannu'n fawr at amcanion a llwyddiant eich busnes (hyd at 500 gair):

Gallech ystyried cynnwys gwybodaeth (ac enghreifftiau) am:

- Y ffordd y mae'r prentisiaid wedi elwa'n uniongyrchol o'ch Rhaglen Brentisiaethau a sut y mae hyn yn effeithio ar eu perfformiad.
- Y ffordd y mae'ch Rhaglen Brentisiaethau wedi gwneud gwahaniaeth i'r busnes a'i llwyddiant a'r fantais/manteision uniongyrchol (neu anuniongyrchol) i'r sefydliad, a sut y mae hyn yn effeithio ar berfformiad. Rhowch ystadegau sy'n dangos yr effaith y mae prentisiaid yn/wedi ei chael ar y busnes – er enghraifft, canran y cynnydd yn y gwerthiant / proffidioldeb, canran y gostyngiad yn nhrosiant staff etc.
- Y cynlluniau sydd gennych yn eu lle i sicrhau bod y Rhaglen Brentisiaethau yn gynaliadwy.

C2. Esboniwch pam y cafodd eich Rhaglen Brentisiaethau ei chychwyn yn eich sefydliad chi (hyd at 500 gair).

Gallech ystyried cynnwys gwybodaeth am:

- Yr angen penodol yn y busnes yr oedd disgwyl i'ch Rhaglen Brentisiaethau ei ddiwallu.
- Y canlyniadau yr oeddech yn eu disgwyl gan y Rhaglen Brentisiaethau.
- Gwybodaeth am gysylltiad eich Rhaglen Brentisiaethau ag amcanion eraill y sefydliad.

C3. Pa mor effeithiol rydych chi'n cefnogi anghenion dysgu a gobeithion unigol eich prentisiaid? (hyd at 500 gair)

Gallech ystyried cynnwys gwybodaeth (ac enghreifftiau):

- Am unrhyw arferion arloesol (yn cynnwys defnyddio technolegau newydd) sydd wedi'u cynnwys yn eich Rhaglen Brentisiaethau.
- Sy'n dangos bod yr hyfforddiant wedi'i gynllunio a'i gyflenwi yn dda, gan ganolbwyntio nid yn unig ar anghenion y sefydliad ond hefyd ar y ffordd y mae'r hyfforddiant wedi'i addasu i ddiwallu anghenion penodol dysgwyr unigol.
- Sy'n dangos sut y mae dysgwyr wedi'u helpu i fanteisio ar gyfleoedd gwaith cynaliadwy a sut y mae'r rhaglen yn eu helpu i wireddu eu gobeithion hirdymor.

C4. Esboniwch sut yr aethoch ati i ddatblygu a chyflenwi eich Rhaglen Brentisiaethau a manteision y ffordd honno o weithio (hyd at 500 gair).

Gallech ystyried cynnwys gwybodaeth am:

- Unrhyw waith a wnaed ar y cyd â rhanddeiliaid allanol i ddatblygu a chyflenwi eich Rhaglen Brentisiaethau.
- Y cymorth a'r adnoddau sydd ar gael i ddysgwyr tra byddant ar eich Rhaglen Brentisiaethau.

C5. Esboniwch y canlyniadau sydd wedi/yn cael eu sicrhau o ganlyniad i'r Rhaglen Brentisiaethau yn eich sefydliad chi (hyd at 500 gair).

Gallech ystyried cynnwys gwybodaeth (ac enghreifftiau) am:

- Y ffordd y mae'r prentisiaid wedi elwa'n uniongyrchol o'ch Rhaglen Brentisiaethau a sut y mae hyn yn effeithio ar eu perfformiad.
- Y ffordd y mae'r sefydliad wedi elwa'n uniongyrchol (neu'n anuniongyrchol) o'ch Rhaglen Brentisiaethau a sut y mae hyn yn effeithio ar y perfformiad.
- Y cynlluniau sydd gennych yn eu lle i sicrhau bod eich Rhaglen Brentisiaethau yn gynaliadwy.

C6. Esboniwch unrhyw effeithiau ehangach y mae'ch Rhaglen Brentisiaethau wedi'u cael ar anghenion eich sector a/neu'r gymuned yn fwy cyffredinol (hyd at 500 gair).

Gallech ystyried cynnwys gwybodaeth (ac enghreifftiau):

- Am gynlluniau yr ydych wedi'u cyflwyno mewn ymateb i anghenion y gymuned ehangach e.e. ymateb i ddiweithdra ymhlith pobl ifanc, mynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhywedd, neu leihau'r rhwystrau sy'n atal unigolion o grwpiau sydd wedi'u tan-gynrychioli, fel pobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a/neu bobl anabl, rhag cymryd rhan mewn prentisiaethau.
- Am y ffyrdd yr ydych chi wedi rhoi gwybod i bobl y tu allan i'ch busnes am y ffyrdd y mae'ch Rhaglen Brentisiaethau'n gwella'ch busnes, yn cynnwys unrhyw hanesion am lwyddiannau eich hyfforddiant, a sut y mae'r busnes a'r staff wedi elwa.
- Am y ffyrdd yr ydych wedi creu cysylltiadau a phartneriaethau da gyda sefydliadau eraill yn eich sector er mwyn gwneud y dysgu'n fwy effeithiol e.e. mynd ati i ddatblygu hyfforddiant mewn partneriaeth ag eraill.

Adran 3: Cefnogaeth y darparwr dysgu – yr adran hon i'w llenwi gan y darparwr dysgu.

C7. Yn eich barn chi, pam y dylid ystyried y sefydliad hwn ar gyfer Gwobr Prentisiaethau – Cyflogwr y Flwyddyn? (hyd at 250 gair)

Gallech ystyried cynnwys gwybodaeth (ac enghreifftiau):

- Am y ffordd y mae'r sefydliad wedi datblygu a chyflenwi ei Raglen Brentisiaethau, gan sicrhau nid yn unig bod cysylltiad rhwng y rhaglen a nodau ac amcanion y sefydliad, ond hefyd bod manteision ehangach i'r prentisiaid.
- Am faint o gydweithio a wnaeth y sefydliad i ddatblygu a chyflenwi'r Rhaglen Brentisiaethau.
- Am y ffordd y mae'r sefydliad yn cysylltu'r Rhaglen Brentisiaethau ag anghenion eraill yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Adran 4: Datganiad y cyflogwr – i'w llenwi gan y cyflogwr.

C8. Datganiad

Mae'r sefydliad a enwir yn y cais hwn yn dymuno cael ei ystyried ar gyfer Gwobr Cyflogwr y Flwyddyn, ac mae'n cadarnhau bod y manylion a roddir yn y cais hwn yn gywir.

Wrth ymgeisio am Wobr Cyflogwr y Flwyddyn, rwyf/rydym yn cytuno i gymryd rhan mewn unrhyw gyhoeddusrwydd ynghylch Gwobrau Prentisiaethau Cymru yn cynnwys tynnu lluniau, ffilmio a datblygu astudiaethau achos, ymhlith pethau eraill. Rwyf/Rydym yn deall y bydd datganiadau i'r wasg yn cael eu rhyddhau cyn y digwyddiad, yn ystod y digwyddiad ac wedyn fel rhan o waith cyhoeddusrwydd Gwobrau Prentisiaethau Cymru. Yn ogystal, os dewisir fi/ni i gyrraedd y Rhestr Fer ac na fyddaf/fyddwn yn gallu mynd i'r Seremoni Wobrwyo am ryw reswm, byddaf/byddwn yn sicrhau bod rhywun yn mynd i'r Seremoni Wobrwyo ar fy/ein rhan.

Rwy'n cytuno â'r datganiad.

Ydw

Na

Preifatrwydd

Caiff pob ymgais ei thrin yn hollol gyfrinachol. Dim ond er mwyn hyrwyddo Rhaglen Brentisiaethau Llywodraeth Cymru a'u Rhaglenni Sgiliau a Chyflogadwyedd ehangach y bydd Llywodraeth Cymru a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW) yn defnyddio'r wybodaeth a roddir. Nid ydym yn gallu anfon y ceisiadau na'r wybodaeth ategol yn ôl.